

Dod a'r celfyddydau a gwyddoniaeth ynghyd

Cronfa yw Synthesis i annog gwyddonwyr ac artistiaid sy'n gweithio yn y celfyddydau perfformio i ddod ynghyd i ddatblygu syniadau a phontio rhwng dau fyd gwahanol iawn i'w gilydd.

Amser-Araf

Mae'r delweddau a'r arteffactau hyn yn ddetholiad o'r project 'Amser Araf' sy'n edrych ar siâp, graddfa ac amser wrth i gisialau halen gael eu ffurfio.

Mae'r project yn waith ymchwil ar y cyd rhwng Artist Rhyngddisgyblaethol, Rachel Rosen a Chemegydd Cynaliadwy, Vera Fitzsimmons-Thoss. Fe'i cynhaliwyd fel cyfres o arbrofion gwyddonol a thechnolegol, gan ddefnyddio offer ac arbenigedd o'r Ysgol Peirianeg Electronig, tîm 'Fablab' Arloesi Pontio a chwmni Halen Môr Môn.

Mae canlyniadau cyfredol yr ymchwil hon, sy'n dal i fynd yn ei blaen, yn cael eu rhannu fel sbesimenau, delweddau, gwrthrychau a ffilm sy'n cofnodi treigl amser. Mae gosodiad dros dro ar lefel 2, a grëwyd gyda chyfranogwyr o blith y cyhoedd, yn defnyddio siapiau papur wedi'u plygu i adleisio'r ffurf pyramidaidd a geir mewn crisialau halen weithiau, ac yna'u 'cramennu' ar adeilad Pontio.

Dilynwch flog gweledol y project ar instagram @slowtimeproject

Carnifal yr Adenydd

Mae 'Carnifal yr Adenydd' yn symbiosis rhwng y celfyddydau a gwyddoniaeth ac yn annog astudiaeth a pharch at harddwch natur.

Mae gwyddonydd adar rhyngwladol Dr Kristen Crandell yn darlithio yn Ysgol y Gwyddorau Naturiol Prifysgol Bangor. Mae'r artistiaid symud Colin Daimond a Peter Powell wedi cydweithio ers blynnyddoedd ar broiectau addysgiadol a phroffesiynol ym myd carnifal, coreograffi a phypedwaith.

Yn dilyn ymchwil i mewn i anatomi, ffiseg a sut mae adar yn hedfan, rydym wedi adeiladu modelau allan o ddeunydd wedi ei ailgylchu a datblygu coreograffi efo symudiadau hedfan, llif aer a phatrymau heidio. Mae'r tîm, ynghyd â dawnswyr, drymwyr a phypedwyr o fand carnifal 'Bloco Sŵn' yn defnyddio adar fel ysbrydoliaeth ar gyfer datblygu perfformiadau dramatig newydd i garnifalau yn yr ardal leol.

Instagram: @colin_daimond, @kriscrandell
Twitter: @ColinDaimond, @kriscrandell

Diwrnod rhannu'r prosiect:
Dydd Sadwrn, 22 Mehefin 2 - 6pm

Ceir flas ar y prosiectau yn y gist ac ar y sgrin ar lefel 0, a mae yna gosodiadau celf dros dro yn y gofodau cyhoeddus am gyfnod cyfyngedig hefyd.

Bringing the arts and science together

Synthesis is a fund to encourage scientists and artists working in the performing arts to develop ideas together which bridge two different worlds.

'Slow-Time'

These images and artefacts are a selection from the project 'Slow-Time' which explores shape, scale and time in the formation of salt crystals.

The project is a research collaboration between Interdisciplinary Artist Rachel Rosen & Sustainable Chemist Vera Fitzsimmons-Thoss. It has been conducted as a series of scientific and technological experiments, using equipment and expertise from the School of Electronic Engineering, the Arloesi Pontio Innovation 'Fablab' team and Halen Môn, the Anglesey Sea Salt company.

The current results of this ongoing research are shared as specimens, images, objects and a time-lapse film. A temporary installation on level 2 created with participants from the general public uses simple folded paper shapes to echo the pyramidal form that salt crystals sometimes take, and then 'encrusted' onto the Pontio building.

Follow the project's visual blog on instagram @slowtimeproject

Carnival of Flight

The 'Carnival of Flight' project is a symbiosis between Arts and Science and champions the study, respect and beauty of nature.

International Avian scientist Dr. Kristen Crandell is a current lecturer in the Natural Sciences department of Bangor University. Movement artists Colin Daimond and Peter Powell have years of collaborative work on educational and professional carnival, choreographic and puppetry performance projects.

The team, alongside Dancers, Drummers and Puppeteers from local Carnival Band 'Bloco Sŵn' are investigating the anatomy, physics, and beauty of how birds fly in their natural environments and are using birdlife as an inspiration to develop new dramatic performances for carnivals in the local area.

Instagram: @colin_daimond, @kriscrandell
Twitter: @ColinDaimond, @kriscrandell

Project sharing day:
Saturday, 22 June 2 - 6pm

You can get a taste of the project in the case and on the screen on level 0, and there are temporary art installations in the public spaces for a limited time too.



01248 38 28 28
pontio.co.uk

